CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
Etholiad ar gyfer
RHANBARTH ETHOLIADOL DE DDWYRAIN CYMRU

1. Cynhelir etholiad i ethol 4 aelod i wasanaethu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru dros Ranbarth Etholiadol De Ddwyrain Cymru.

2. Rhaid i bapurau enwebu gael eu danfon at y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn Ystafell 527a, y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, rhwng 10-00 am a 4-00 pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith (dydd Llun hyd ddydd Gwener) ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, ond heb fod yn hwyrach na **16:00** ar **ddydd Iau, 7fed EBRILL, 2016**. Derbynnir ernesau ymgeiswyr (£500) ar ffurf arian parod neu ddrafft banc, wedi'i dynnu yn erbyn banc y stryd fawr.

3. Gellir cael papurau enwebu yn y lle ac ar yr adegau a grybwyllir uchod. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, ar gais unrhyw unigolyn, yn paratoi papur enwebu i gael ei lofnodi.

4. Os ymleddir yr etholiad, bydd y pleidleisio ar **ddydd Iau, 5ed MAI, 2016**.

5. Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol erbyn **24:00** ar ddydd **Llun 18 Ebrill 2016**.

6. Dylai etholwyr a'u dirprwyon ddal sylw bod yn rhaid i bob cais am bleidlais drwy'r post newydd, am bleidlais drwy ddirprwy drwy'r post ac i newid neu ddiddymu pleidlais drwy'r post a phleidlais drwy ddirprwy sy'n bodoli eisoes, gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol berthnasol isod, erbyn **17:00** ar **ddydd Mawrth, 19eg EBRILL, 2016**. Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu eu dirprwyon sy'n dymuno gwneud newidiadau i'w trefniadau presennol yn barhaol.

7. Rhaid i geisiadau newydd i benodi dirprwy gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol berthnasol isod erbyn **17:00** ar **ddydd Mawrth, 26ain EBRILL, 2016**.

8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail analluogrwydd corfforol neu am resymau sy'n ymwneud â gwaith/gwasanaeth gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol yn y cyfeiriad isod erbyn **17:00** ar **5ed Mai 2016**. Rhaid bod yr analluogrwydd corfforol wedi digwydd ar ôl **17:00** ar **ddydd Mawrth 26ain Ebrill 2016**. Er mwyn gwneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth, rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio'n bersonol ar ôl **17:00** ar **ddydd Mawrth 26ain Ebrill 2016**.

Etholaeth	Manylion Cyswllt y Swyddfa Cofrestru Etholiadol	
Blaenau Gwent	CBS Blaenau Gwent, Y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glyn Ebwy, NP23 6DN	01495 355086
Caerffili Islwyn	CBS Caerffili, Dyffryn House, 5a Alder Avenue, Parc Busnes Dyffryn, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7TW	01443 864203
Merthyr Tudful a Rhymni	CBS Merthyr Tudful, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN	01685 725202
Mynwy	Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA	01633 644212
Dwyrain Casnewydd Gorllewin Casnewydd	Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 528, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR	01633 210744
Torfaen	CBS Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB	01495 766074

Cynhelir etholiadau Etholaethau i Gynulliad Cymru hefyd ar ddydd Iau, 5ed Mai, 2016, ynghyd â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer Gwent.

Will Godfrey,
Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol,
Y Ganolfan Ddinesig,
Casnewydd,
NP20 4UR

Dyddiedig heddiw 21ain o Fawrth, 2016.

Noder: - Dylai unrhyw un ag ymholiad gysylltu â Phil Johnson, y Dirprwy Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, i gael mwy o wybodaeth ar 01633 210742 e-bost phillip.johnson@newport.gov.uk